

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Perfformiad

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Chwefror
2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 7 MAWRTH 2024 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024 (copi ynghlwm).

5 ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF (Tudalennau 15 - 36)

I ystyried a thrafod adroddiad am bolisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod mewn cysylltiad â chefnogi a monitro darparu Addysg Ddewisol yn y Cartref.

10.10am – 11am

~~~~ EGWYL (11am – 11.15am) ~~~~

**6 A YW SWYDDOGAETHAU CYMORTH CORFFORAETHOL Y CYNGOR YN EFFEITHIOL?** (Tudalennau 37 - 54)

Ystyried adroddiad am gynnydd a wnaed hyd yma i fynd i'r afael â'r ddau argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu hadroddiad ym Mai 2023 ynghyd â chynlluniau'r Cyngor ar gyfer darparu digon o adnoddau ar gyfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymorth corfforaethol ehangach.

11.15pm – 12pm

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 55 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

12pm – 12.20pm

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

12.20pm – 12.30pm

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving  
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Is-  
Gadeirydd)

Ellie Chard  
Bobby Feeley  
Martyn Hogg  
Carol Holliday  
Alan Hughes

Paul Keddie  
Diane King  
Terry Mendies  
Andrea Tomlin

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

Colette Owen

Neil Roberts

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 25 Ionawr 2024 am 10.00am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Diane King, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd) ac Andrea Tomlin

### HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Pennaeth Tai a Chymunedau (LG); Pennaeth Addysg (GD); Arweinydd Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg / Swyddog Diogelu (WW); Prif Reolwr Addysg (RT); Prif Lyfrgellydd (DO); Cydlynnydd Craffu (RE); Gweinyddwr Zoom (NPH) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### **Hefyd yn bresennol - ar wahoddiad y Pwyllgor**

Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Gill German, yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen.

Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, y Cynghorydd Emrys Wynne, yn bresennol ar gyfer Eitem 6 ar y Rhaglen

#### **Arsylwyr -**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones

#### **Aelodau Cyfetholedig Addysg –**

Colette Owen a Neil Roberts yn bresennol ar gyfer Eitem 5 ar y Rhaglen

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelod Cyfetholedig Addysg, David Lloyd.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor fod Mr Lloyd hefyd wedi penderfynu'n ddiweddar na fyddai'n ail sefyll i'w ail-ethol i Gorff Llywodraethu un o ysgolion uwchradd y Sir. Felly, byddai ei gyfnod fel rhiant-lywodraethwr ac fel eu cynrychiolydd cyfetholedig ar bwyllgorau craffu'r Cyngor hefyd yn dod i ben ddiwedd mis Ionawr 2024. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Lloyd am ei gyfraniadau yn ystod ei gyfnod fel cynrychiolydd cyfetholedig rhiant-lywodraethwr cynradd ac uwchradd ar bwyllgorau Craffu.

Croesawodd y Pwyllgor Colette Owen i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor craffu fel aelod cyfetholedig newydd yr Eglwys Gatholig ar bwyllgorau craffu'r Cyngor.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr Aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 5, 'Hyrwyddo Presenoldeb yn yr Ysgol ac Ymgysylltiad mewn Addysg', yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgol:

|                                |                                                                                             |
|--------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------|
| Y Cynghorydd Ellie Chard       | Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) yn Ysgol Tir Morfa.                              |
| Y Cynghorydd Bobby Feeley      | Llywodraethwr AALI yn Ysgol Stryd Rhos                                                      |
| Y Cynghorydd Martyn Hogg       | Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol VP Llanelwy                                                    |
| Y Cynghorydd Carol Holliday    | Llywodraethwr Cyngor Tref/Cymuned ar gyrff llywodraethu Ysgol Penmorfa ac Ysgol Clawdd Offa |
| Y Cynghorydd Alan Hughes       | Llywodraethwr yn Ysgol Caer Drewyn                                                          |
| Y Cynghorydd Paul Keddie       | Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Collen                                                          |
| Y Cynghorydd Diane King        | Llywodraethwr yn Ysgol Christchurch                                                         |
| Neil Roberts                   | Llywodraethwr yn Ysgol y Parc                                                               |
| Y Cynghorydd Gareth Sandilands | Llywodraethwr AALI yn Ysgol Clawdd Offa                                                     |

Datganodd y Cynghorydd Andrea Tomlin gysylltiad personol yn yr un eitem gan ei bod yn adnabod aelod o'r tîm sy'n darparu'r gwasanaeth.

## 3 MATERION BRYD Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau bryd gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynnydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023.

### Materion yn codi

Eitem 6, y Diweddaraf ar Hunanasesiad Perfformiad y Cyngor - wrth ymateb i ymholiad a godwyd am argaeledd gwybodaeth ar fesurau cyrhaeddiad ysgol a sut yr adroddir arnynt yn y dyfodol, cytunodd y Pennaeth Addysg i holi swyddogion Llywodraeth Cymru.

***Penderfynwyd: y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

## 5 HYRWYDDO PRESENOLDEB YN YR YSGOL AC YMGYSYLLTIAD MEWN ADDYSG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Gill German adroddiad ar Hyrwyddo Presenoldeb yn yr Ysgol ac Ymgysylltiad Mewn Addysg (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Eglurodd nad oedd lefelau presenoldeb yn yr ysgol wedi cyrraedd y lefelau cyn y pandemig, felly roedd angen mwy o waith i wella ymgysylltiad a lefelau presenoldeb.

Rhodddwyd gwybodaeth ac eglurwyd y mesurau i gefnogi disgyblion diamddiffyn i ail-ymgysylltu gyda'u haddysg a dyfnhau dealltwriaeth o'r cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol wrth ymdrin â'r lefel gyfredol o bryder yn genedlaethol.

Roedd cyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd ddiwethaf wedi gostwng ar hyd a lled Cymru a'r cyfartaledd cyffredinol ar draws awdurdodau oedd 88.9% Cynradd/Uwchradd wedi'u cyfuno. Roedd dadansoddiad manylach o'r patrwm presennol yn Atodiad 3 ac roedd y ffigurau hyn yn dangos bod ffigurau presenoldeb cyfartalog Sir Ddinbych yn 90.1% yn ystod tymor yr hydref 2023 o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 91.3%.

Roedd Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau yn ddiweddar i ddod â Chymru yn unol â Lloegr ble mae absenoldeb cyson yn cael ei ddiffinio fel colli 10% o sesiynau hanner diwrnod (30 sesiwn) yn hytrach na'r gyfradd absenoldeb gyfredol o 20% o absenoldeb cyson sy'n gyfwerth â 60 sesiwn hanner diwrnod y flwyddyn.

Roedd Sir Ddinbych wedi cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol i ymdrin ag addysg ac ysgolion a'u cefnogi.

Roedd gwaith wedi bod yn cael ei wneud gydag ysgolion ar yr agwedd allweddol o deuluoedd oedd mewn trafferthion â thai gwael, byw mewn tlodi neu'n ei chael yn anodd gyda'r argyfwng costau byw, gan y byddai hyn yn cael effaith ar y plant. Byddai ymgysylltu ag ysgolion a theuluoedd yn hollbwysig i wella presenoldeb. Roedd swyddogion yn ymweld â theuluoedd mewn ymgais i ddeall pam nad oedd disgyblion yn mynd i'r ysgol ac yn ymgysylltu â'u haddysg, roedd cefnogaeth yn cael ei chynnig er mwyn annog ail-ymgysylltu a gwella lefelau presenoldeb.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd a'r swyddogion:

- Roedd ymyriadau'n hanfodol, ond y prif anawsterau oedd nad oedd lefelau staff yn cynyddu i ymdopi â chynnydd mewn galw a phwysau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol ond roedd wedi bod yn anodd penodi.
- Roedd ymyriadau'n amrywio o un ysgol i'r llall hefyd gan fod presenoldeb da mewn rhai ysgolion, oedd cystal os nad gwell na'r lefelau cyn y pandemig, ond roedd ar eraill angen cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol i wireddu gwelliannau.
- Roedd gwaith ar y gweill gyda theuluoedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol, rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, ffoaduriaid, teuluoedd Sipsi, Roma a theithwyr, plant sy'n derbyn gofalu ac ati gan eu bod yn ddisgyblion â nodweddion diamddiffyn.
- O ran y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, yn aml roedd gan y plant a theuluoedd hyn anghenion tai ac roedd yn bwysig bod y plant yn dod i'r ysgol i fod mewn amgylchedd diogel ac i gael un pryd poeth y dydd o leiaf.
- Roedd gan lawer o blant anghenion lles ac iechyd meddwl, ond nid oedd hyn yn esgus iddynt beidio â dod i'r ysgol. Roedd rhai plant hefyd yn gofalu am aelodau'r teulu, felly roedd yn bwysig bod eu hanghenion yn cael eu bodloni

i'w galluogi i fynd i'r ysgol i wella eu canlyniadau i'r dyfodol. Mae pob plentyn ar ei ennill o fynd i'r ysgol. Roedd dull Un Cyngor ar waith er mwyn annog presenoldeb, ymgysylltiad a lles disgyblion. Roedd hyn yn cael ei ymestyn i sefydliadau allanol hefyd, hynny ydi ymarferwyr iechyd sy'n rhan o fywydau plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

- Roedd strategaeth gyfathrebu wedi ei llunio yn dilyn adroddiad Estyn a thrafodaethau mewn cynadleddau Penaethiaid. Roedd y strategaeth hon yn bwydo negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac ati ar ba mor bwysig oedd hi i ddisgyblion fynd i'r ysgol yn rheolaidd, peidio cyrraedd yr ysgol yn hwyr a bod teuluoedd ddim yn mynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Nid bwriad y negeseuon hyn oedd gelyniaethu rhieni a theuluoedd, eu pwyslais oedd bod yr Awdurdod yn malio am bob plentyn, eu lles, eu dyheadau a'u dyfodol. Roedd y strategaeth gyfathrebu yn cael ei gwerthuso a'i hadolygu bob mis i sicrhau bod y dull yr oedd yn ei dargedu yn berthnasol i'r tueddiadau diweddaraf.
- Roedd gweithlu addysg y sir yn greadigol iawn wrth feddwl am ffyrdd o ddileu rhwystrau fel bod disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu a bod ganddynt ddiddordeb ynddo.
- Roedd y cyllid ychwanegol gan LIC wedi galluogi'r Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg i ehangu o 4 i 7 aelod o staff. Er hynny, roedd y galw am gefnogaeth yn dal yn fwy na'r hyn y gallai'r tîm ei ddarparu ar hyn o bryd.
- Roedd dull 'ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol' wedi cael ei roi ar waith yn holl ysgolion y sir. Roedd y dull hwn wedi cael ei amlinellu mewn adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Medi 2023.
- Rhoddwyd Rhybuddion Cosb Benodedig i rieni neu ofalwyr plant nad oedd yn mynd i'r ysgol gan eu bod yn torri'r gyfraith. Yn anffodus, nid oedd y Rhybuddion Cosb Benodedig yn effeithiol bob amser ond dyma'r drefn oedd ar waith gan mai dyma'r canllawiau presennol i'w dilyn. Dim ond os nad oes unrhyw ddewis arall oedd y Rhybuddion yn cael eu rhoi, pan oedd pob ffordd arall o gyfathrebu, ymgysylltu ac annog rhieni neu ofalwyr wedi methu.
- Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Estyn yr wythnos flaenorol ar 'Wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd' yn cynnwys nifer o argymhellion i ysgolion, awdurdodau addysg lleol a hefyd i Lywodraeth Cymru. Roedd Sir Ddinbych a'i hysgolion eisoes yn defnyddio mwyafrif y dulliau a restrwyd yn yr argymhellion, ond byddai'n datblygu rhai ohonynt ymhellach eto yn y dyfodol.
- Ni fyddai'r cyllid ychwanegol trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol yn gallu cael ei ddefnyddio ar gludiant i'r ysgol i fyfyrwyr. Roedd telerau ac amodau'r cyllid hwn yn nodi mai dim ond at ddibenion lles a chefnogaeth addysgol oedd i gael ei ddefnyddio.
- Roedd LIC wrthi'n adolygu ei bolisi cludiant i'r ysgol ar hyn o bryd, o ran y pellter cymwys o gartref i ysgol agosaf fwyaf addas disgyblion. Rydym yn dal i aros am ganlyniad yr adolygiad hwn.
- Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r trothwy 'absenoldebau parhaus' yn rhoi mwy o bwysau ar staff ysgolion, staff addysg a gwasanaethau lles addysg. Byddai disgwyl i Lywodraeth Cymru drafod gweithredu'r newidiadau hyn a'r effaith a ragwelir ar awdurdodau addysg lleol a staff â deiliaid portffolio addysg a swyddogion addysg yng Nghymru. Roedd Sir Ddinbych yn dibynnu llawer iawn ar gyllid grant LIC i dalu am wasanaethau lles addysg.



- Roedd yn well gan yr Awdurdod fod yn rhagweithiol a defnyddio dull o atal yn hytrach nag ymyrryd o reoli presenoldeb yn yr ysgol. Roedd pob ysgol yn dilyn system godio genedlaethol, oedd yn darparu data am y rhesymau dros yr absenoldeb e.e. 'M' (apwyntiad meddygol) 'S' (neu 'I' yn Saesneg am salwch - hunan-ardystiad gan riant/gofalwr). Os oedd cod 'N' (dim rheswm wedi'i roi), byddai'r ysgol yn cael ei holi, gan y dylai fod yna reswm am bob absenoldeb. Roedd ysgolion yn cael eu monitro bob dydd/wythnos/mis/tymor drwy'r System Rheoli Gwybodaeth Ysgol.

Holodd Aelodau a fyddai'n bosibl llunio ffeithlun fyddai'n dangos yn syml faint a goblygiadau diffyg presenoldeb disgyblion yn ysgolion y sir, fel y gallant ei rannu'n hawdd â phreswylwyr i dynnu sylw at unrhyw broblemau a chael eu cefnogaeth i annog disgyblion i ymgysylltu â'u haddysg. Wrth ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor am beth allai aelodau etholedig ei wneud yn eu rôl fel Rhieni Corfforaethol i gefnogi swyddogion ac annog disgyblion i fynd i'r ysgol ac ymgysylltu â'u haddysg, dywedodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion y byddent yn ddiolchgar pe gallai'r aelodau atgyfnerthu a rhannu'r negeseuon sy'n cael eu hanfon gan y Gwasanaeth Addysg a Thîm Cyfathrebu'r Cyngor yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r ysgol â theuluoedd yn eu hardal ac ar gyrrff llywodraethu'r ysgolion yr oeddent yn aelodau ohonynt. Wrth rannu'r negeseuon hyn, gofynnwyd i aelodau bwysleisio bod y Cyngor yn annog presenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltu nid oherwydd eu bod yn beio teuluoedd am beidio â sicrhau bod eu plant yn mynd i'r ysgol, ond oherwydd eu bod yn malio am ddisgyblion a'u teuluoedd.

Ar y pwynt hwn, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a'r holl swyddogion am fynychu ac am eu holl waith.

Ar ddiwedd y drafodaeth drylwyr:

**Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod –**

- (i) derbyn yr adroddiad ynghyd â'r wybodaeth a rannwyd yn ystod y cyfarfod a chydabod yr ymdrechion a wnaed hyd yma i hyrwyddo presenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltiad disgyblion yn eu haddysg; a***
- (ii) gofyn am i adroddiad arall gael ei gyflwyno i'r aelodau ym mis Medi 2024 yn trafod y cynnydd a wnaed i wella cyfraddau presenoldeb ac ymgysylltiad ag addysg yn holl ysgolion y sir yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24 yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.***

Ar y pwynt hwn (11.30am), cafwyd egwyl o 15 munud. Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.45am.

## **6 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth, y Cynghorydd Emrys Wynne, adroddiad Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd (dosbarthwyd ymlaen llaw). Fel rhan o'i gyflwyniad, pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol

fod y gwasanaeth wedi perfformio'n dda yn ystod 2022-23 ond cydnabu fod ganddo bryderon am allu'r Gwasanaeth i gynnal y perfformiad uchel hwn yn y tymor canolig oherwydd y sefyllfa ariannol yn y dyfodol.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 (wedi'i ymestyn i 21-23) a'r cynnydd a wnaed i ddatblygu llyfrgelloedd fel manau lles a chadernid unigol a chymunedol.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23, oedd yn dal o fewn y cyfnod Covid. Ni ddisgwylir y bydd effaith y newidiadau arfaethedig ar berfformiad y gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad yn glir tan fis Ebrill 2024 ar y cynharaf.

Disgwylir y bydd Safonau Cenedlaethol Newydd yn cael eu sefydlu gyda chyhoeddiad 7fed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, sydd â dyddiad gweithredu arfaethedig o 1 Ebrill 2025.

Cyflwynodd y Pennaeth Tai a Chymunedau, Liz Grieve y Prif Lyfrgellydd newydd, Deborah Owen i'r Pwyllgor.

Cyn y trafodaethau, eglurodd y Pennaeth Tai a Chymunedau nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at y toriadau i oriau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych. Yna aeth ymlaen i amlinellu'r broses a ddilynwyd i gynnal yr asesiad, gan bwysleisio bod y Cyngor yn perfformio'n dda dan y safonau presennol. Roedd perfformiad wedi gwella'n fawr wedi i'r cyfyngiadau Covid ddod i ben, er nad oedd y cyhoedd yn defnyddio cymaint ar gyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd ers y pandemig. Roedd darpariaeth gwasanaeth eraill wedi cael eu haddasu i ymateb i anghenion y cyhoedd wedi'r pandemig.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion:

- Nad oedd Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru yn cymharu gwasanaeth llyfrgelloedd awdurdodau lleol unigol yn erbyn ei gilydd.
- Roedd y gwasanaeth yn cynnig ehangu ymgysylltiad digidol yn y gwasanaeth llyfrgelloedd, o bosibl drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr i helpu i wella sgiliau digidol preswylwyr a chefnogi sefydliadau i gael cyllid i helpu i gefnogi rhai nad ydynt yn deall TG i gael a gwella eu sgiliau TG mewn amgylchedd 'cyfeillgar/cefnogol'.
- Nid oedd y gwasanaeth yn defnyddio llawer ar wirfoddolwyr ar hyn o bryd.
- Yn y dyfodol, byddai'r gwasanaeth yn archwilio cyfleoedd i greu mwy o incwm gan sefydliadau allanol er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau er gwaetha'r toriadau i gyllidebau. Byddai hefyd yn gofyn am wybodaeth gan Wasanaethau Llyfrgell eraill ar ba gamau oeddent wedi eu cymryd i geisio cynnal gwasanaethau er gwaetha'r toriadau i gyllidebau.
- Er nad oedd Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion bellach, roedd staff y llyfrgelloedd yn gweithio'n agos gydag ysgolion y sir ac roeddent wedi ymgysylltu â disgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn ddiweddar er mwyn eu hannog i ymweld â'u llyfrgell leol a'i defnyddio fel cyfleuster ymchwil. Roedd disgyblion

yn ystyried eu llyfrgelloedd ysgol fel manau diogel ac roedd yn galonogol gweld cymaint o ddisgyblion yn gwirfoddoli i helpu ynddynt.

- Fel rhan o'i waith cynllunio i'r dyfodol, bydd y gwasanaeth yn cynnal arolwg yn gofyn am farn y cyhoedd a'u syniadau am y math o wasanaethau yr hoffent weld eu llyfrgelloedd lleol yn eu darparu.
- Nid oedd gan y gwasanaeth wybodaeth fanwl am faint o bobl oedd yn defnyddio'r gwasanaeth llyfrgelloedd a pha wasanaethau'n benodol, ond gellid rhoi data ar nifer yr aelodau o ward oedd yn aelodau gweithredol o lyfrgell.

Cadarnhawyd y byddai effaith y newidiadau i oriau agor llyfrgelloedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad 2024/25, roedd adroddiad 2023/24 yn seiliedig ar yr oriau agor a'r defnydd presennol. Holodd yr aelodau pam bod oedi cyn cyflwyno'r adroddiad ac eglurwyd bod y Cyngor yn rhoi'r wybodaeth i Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin bob blwyddyn ac yn cael ymateb gan yr Adran ym mis Rhagfyr fel arfer, a dyna pryd y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu bob blwyddyn. Gofynnodd yr aelodau am i Adroddiad Gwybodaeth gael ei ddarparu yng nghanol 2024 yn cynnwys manylion am ystadegau perfformiad drafft y gwasanaeth fel y'i cyflwynwyd i Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Fframwaith, cyn derbyn Adroddiad Asesiad Blynyddol 2023/24 yn erbyn y Safonau ym mis Ionawr 2025.

Byddai gweithgor yn cael ei sefydlu cyn bo hir i asesu effaith y gostyngiad yn oriau agor y Llyfrgell/Siop Un Alwad ac i archwilio datrysiadau eraill i wella darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol. Cyn bo hir, gofynnir i bob Grŵp Ardal Aelodau benodi aelod i wasanaethu ar y Grŵp hwn.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol, er bod oriau agor y llyfrgelloedd yn cael eu lleihau fel rhan o strategaeth y Cyngor i osod cyllideb gytbwys, roedd hefyd yn bwysig cofio na fyddai unrhyw lyfrgell yn cau, a byddai'r adeiladau'n dal ar gael i'r gymuned eu defnyddio.

Yn dilyn trafodaeth ddwys:

**Penderfynwyd: yn amodol ar y sylwadau uchod -**

- (i) cymeradwyo a chydabod perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru;***
- (ii) gofyn am 'Adroddiad Gwybodaeth' yng nghanol 2024 yn cynnwys manylion am ystadegau perfformiad drafft y gwasanaeth fel y'i cyflwynwyd i Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Fframwaith, cyn derbyn Adroddiad Asesiad Blynyddol 2023/24 yn erbyn y Safonau ym mis Ionawr 2025; a***
- (iii) bod darganfyddiadau cychwynnol y Gweithgor sy'n cael ei sefydlu i fesur effaith y gostyngiad yn oriau agor y Llyfrgell/Siop Un Alwad ac i archwilio cynigion neu ddatrysiadau eraill i wella neu ehangu darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn niwedd 2024.***

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer 7 Mawrth 2024, gyda phedair eitem, a chyfarfod ar 18 Ebrill 2024 gyda 3 eitem.

Roedd yr Atodiad yn cynnwys copi o ffurflenni Cynigion Craffu'r Aelodau ac anogwyd yr aelodau i'w cwblhau os oedd ganddynt unrhyw eitemau fyddai'n addas i graffu arnynt. Byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu (GCIGC) yn cyfarfod yr wythnos ganlynol i ystyried unrhyw geisiadau a gafwyd. Yn eu cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd 2023, roedd y GCIGC wedi ychwanegu un eitem at y rhaglen waith i'w hystyried ym mis Tachwedd 2024, oedd yn ymwneud â 'phrosesau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer ymgeisio am gyllid grant gwerth uchel'.

Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn Atodiad 3 er gwybodaeth.

Roedd Atodiad 4 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar argymhellion y Pwyllgor o'i gyfarfodydd blaenorol.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at baragraff 4.8 yr adroddiad oedd yn dangos y rhesymeg dros beidio â chyflwyno adroddiadau Monitro Perfformiad y Cynllun Corfforaethol mor aml i'r Pwyllgor o hyn ymlaen. Pwysleisiwyd mai dim ond adroddiadau Chwarter 1 a 3 oedd yn cael eu tynnu'n ôl. Lluniwyd yr adroddiadau hyn er gwybodaeth i'r Pwyllgor ac nid oeddent yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'w trafod. Byddai adroddiadau Chwarter 2 a 4 / adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn parhau i gael eu cyflwyno i'w trafod yn ffurfiol. Yn y cyfamser, pe bai'r aelodau'n dymuno gwneud eu gwaith ymchwil eu hunain ar berfformiad y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau neu olrhain cynnydd prosiectau penodol, gallent wneud hynny drwy ddefnyddio'r system rheoli perfformiad corfforaethol, Verto. Gallai pob aelod ofyn am fynediad at system Verto.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***Penderfynwyd: yn amodol ar gynnwys yr eitemau a ychwanegwyd yn ystod y trafodaethau yn y cyfarfod, i gadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor fel roedd wedi'i nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad.***

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cadeirydd, y cynrychiolydd Craffu ar Fwrdd Prosiect Marchnad y Frenhines, nad oedd y Bwrdd wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Rhoddodd y Cynghorydd Holliday, cynrychiolydd y Pwyllgor ar Grŵp Her Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaeth Digartrefedd, drosolwg o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod Her Gwasanaeth diweddar. Roedd amodau llety a'r costau cynyddol i gartrefu teuluoedd digartref yn rhan allweddol o'r trafodaethau.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd nad oedd y Grŵp Craffu Cyfalaf wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Roedd ei gyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer y diwrnod canlynol a chytunodd y Cynghorydd Sandilands i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y trafodaethau yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                  |                                                                                                            |
|----------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>                                                                         |
| <b>Dyddiad y cyfarfod</b>        | <b>07 Mawrth 2024</b>                                                                                      |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b> | <b>Gill German (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc) a Geraint Davies (Pennaeth Addysg)</b>        |
| <b>Pennaeth Gwasanaeth</b>       | <b>Geraint Davies, Pennaeth Addysg</b>                                                                     |
| <b>Awduron yr Adroddiad</b>      | <b>Jayne Williams (Athro Ymgynghorol, Addysg Ddewisol yn y Cartref) a Geraint Davies (Pennaeth Addysg)</b> |
| <b>Teitl</b>                     | <b>Cefnogi a monitro darparu Addysg Ddewisol yn y Cartref</b>                                              |

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. I archwilio polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod mewn cysylltiad â chefnogi a monitro darparu Addysg Ddewisol yn y Cartref.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei gyfrifoldebau statudol o ran disgyblion sy'n dewis cael eu haddysgu gartref, tra'n sicrhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u diogelu'n briodol.

## **3. Beth yw'r Argymhelliad?**

3.1. Gwahoddir y pwyllgor Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i adnabod unrhyw faterion a godwyd sydd angen eglurhad neu archwiliad pellach yn y dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Cyd-destun

- 4.1. Addysgu gartref yw term sy'n cael ei ddefnyddio pan fo rhieni yn addysgu eu plant yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol. Mae addysgu gartref yn adlewyrchu amrywiaeth o ddulliau ac mae'n caniatáu ymagwedd unigol i blant sydd wedi'i deilwra i anghenion a diddordebau penodol pob plentyn. Mae nifer o rieni sy'n addysgu gartref yn teimlo eu bod yn gallu diwallu anghenion unigol a steiliau dysgu eu plant yn fwy effeithiol nag mewn ystafell ddosbarth.
- 4.2. Nid oes yn rhaid i blant sy'n cael eu haddysgu gartref ddilyn Cwricwlwm i Gymru nac unrhyw gwricwlwm penodol arall na bodloni meini prawf ar gyfer y nifer o oriau dysgu. Gall y dull addysgu gartref fod unrhyw le ar gontinwmm o ddull ffurfiol, strwythuredig wedi'i seilio ar amserlen, drwodd i addysg awtonomaidd neu sy'n cael ei arwain gan blentyn.
- 4.3. Cafodd canllaw statudol ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref ei gwblhau ym mis Mehefin 2023 i gefnogi Awdurdodau Lleol wrth ymarfer eu swyddogaethau o dan Adran 436A Deddf Addysg 1996. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau i ganfod pwy yw'r plant yn eu hardal sydd o'r oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi cofrestru'n ddisgyblion mewn ysgol, ac nad ydynt fel arall yn derbyn addysg addas mewn ysgol.

### Cyfrifoldebau

- 4.4 Cyfrifoldeb y rhiant yw darparu addysg addas, effeithlon, llawn amser, yn unol ag oedran, gallu a doniau y plentyn.
- 4.5 Rôl yr Awdurdod Lleol yw canfod plant neu bobl ifanc NAD YDYNT yn derbyn addysg addas, effeithlon, llawn amser. Nid ein rôl ni yw darparu'r addysg, ond fe allwn ni gefnogi. Gallwn ymgymryd â'r rôl hon mewn sawl ffordd wahanol. Y ffordd fwyaf pwysig yw drwy ymgysylltu mewn modd cadarnhaol, cefnogol gyda'r teuluoedd a meithrin perthynas er mwyn i ni allu canfod pa ddysgu sydd yn digwydd a'i addasrwydd.



## Cefnogi Teuluoedd

- 4.6. Cyn i ddysgwyr gael eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol, mae'n rhaid rhannu [Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref - Llywodraeth Cymru](#) gyda theuluoedd er mwyn iddynt wybod beth a ddisgwylir ganddynt er mwyn Addysgu Gartref. Ar ôl i deuluoedd symud i Addysg Ddewisol yn y Cartref, fe gaiff Protocol Sir Ddinbych, a ddiweddarwyd ym mis Chwefror 2024 (gweler Atodiad 1), ei anfon at y teuluoedd i'w cefnogi nhw i ddechrau arni.
- 4.7. Mae ymweliad â'r cartref yn cael ei gynnig i bob teulu sy'n cynnig Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae hyn yn ffordd effeithiol o gysylltu â phob teulu ac mae'n gyfle gwych i gyfarfod â'r dysgwyr a chlywed eu safbwyntiau nhw. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddysgwyr egluro beth maen nhw wedi bod yn ei ddysgu. Does dim rhaid i deuluoedd dderbyn ymweliad â'r cartref. Mae'n well gan rai teuluoedd anfon adroddiad addysgiadol neu adroddiad cefnogi gan drydydd parti.
- 4.8. Mae nifer o deuluoedd yn holi ynglŷn â lle i ddechrau a ble i ddod o hyd i waith, ac mae taflen wybodaeth gydag enghreifftiau o wefannau, gweithlyfrau ac apiau amrywiol i gefnogi dysgu ar gael. Mae teuluoedd hefyd yn cael eu cyfeirio at grwpiau amrywiol yn y gymuned leol er mwyn iddynt wneud cysylltiadau ac i fod yn rhan o rwydwaith ehangach. Mae yna hefyd ran benodol ar wefan CSDd sydd yn cefnogi teuluoedd i allu cael gafael ar y wybodaeth a manylion cysylltu diweddaraf (Atodiad 2).

## Proffil a Chyllid Sir Ddinbych

- 4.9. Ar hyn o bryd, mae gan Sir Ddinbych 158 o ddysgwyr sydd ar y gofrestr Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae hyn yn gynydd amlwg ers mis Awst 2016 pan mai 94 o ddysgwyr oedd ar gofrestr Addysg Ddewisol yn y Cartref yr ALI. Gall niferoedd y dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref amrywio yn ystod y flwyddyn ysgol.
- 4.10. Bob blwyddyn mae'r Awdurdod Lleol (ALI) yn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith dysgu teuluoedd sy'n Addysgu Gartref. Ym mis Hydref 2023, dangosodd 76 o'r 141 o deuluoedd ar y gofrestr bryd hynny ddiddordeb a chawsant eu cefnogi'n ariannol. Yr eitem fwyaf poblogaidd oedd tocynnau arhug i brynu adnoddau dysgu (75 taleb), yna tocyn Theatr (63) a thocyn Hamdden Sir Ddinbych

(62). Fe wnaethom ni hefyd gyfrannu tuag at ffioedd arholiadau a chostau tanysgrifio ar gyfer rhaglenni addysgiadol ar-lein.

## **Diffyg ymgysylltu**

4.11. Yn anffodus, yn unol ag Awdurdodau Lleol eraill, mae gan Sir Ddinbych nifer fechan o deuluoedd sydd naill ai'n gwrthod neu sydd yn gyndyn o ymgysylltu. Fel Awdurdod Lleol, rydym ni'n ceisio ymgysylltu gyda'r teuluoedd yma drwy broses strwythuredig o llythyrau penodol sy'n cael eu hanfon ar adegau penodol. Bydd pob un o'r llythyrau yma'n mynd yn fwy difrifol gyda phob cam. Rhwng y llythyrau yma, mae yna alwadau ffôn, mae e-byst yn cael eu hanfon ac mae ymweliadau heb eu trefnu'n digwydd er mwyn ceisio ymgysylltu a chefnogi'r teuluoedd. Mae'r swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gweithio'n agos gyda Thîm Gwaith Cymdeithasol Addysg yn yr achosion yma er mwyn ceisio sicrhau bod unrhyw bryderon am ddiogelu yn cael eu trin yn brydlon.

4.12. Os ydynt yn dal i beidio ymgysylltu, gall yr ALI gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol sydd â 3 cham ac allai arwain at eu herlyn.

## **Partneriaeth gydag eraill**

4.13. Mae siart llif wedi'i ddiweddarau wedi cael ei rannu gyda phob ysgol ar draws Sir Ddinbych er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn o addysg yn yr ysgol i Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae pob ysgol yn dilyn y siart llif yma'n llwyddiannus a chaiff gwybodaeth ei drosglwyddo'n effeithiol i'r ALI pan fydd dysgwyr yn cael eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol. Mae gan y Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref berthnasoedd cryf gydag ysgolion ac mae'n cysylltu'n rheolaidd gydag ysgolion i gynnig cefnogaeth ble mae ei angen ac i rannu arfer da.

4.14. Mae Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref yr ALI hefyd yn aelod o dîm rhanbarthol o swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref sydd yn cyfarfod bob tymor i drafod meysydd o bryder neu i gynorthwyo ei gilydd gydag unrhyw ymholiadau. Mae rhannu ymarfer ar draws y 6 ALI yng ngogledd Cymru yn ffordd effeithiol o gefnogi teuluoedd ymhellach. Mae yna hefyd dîm cenedlaethol o swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref sydd yn cyfarfod ar-lein gyda Llywodraeth Cymru bob tymor i drafod diweddariadau ar sail genedlaethol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**

- 5.1. Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach lle mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn lle ble gall pobl ifanc ddysgu a gwneud cynnydd da yn eu sgiliau, dysgu mewn amgylchedd teg a diogel. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod bob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu gwireddu eu potensial llawn.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

- 6.1. Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i ddefnyddio Grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r nifer cynyddol o deuluoedd sydd yn dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref. Yn sgil y niferoedd cynyddol, mae Athro llawn amser wedi cael ei gyflogi i fonitro a chefnogi Addysg Ddewisol yn y Cartref.
- 6.2. Yn sgil y nifer cynyddol o ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mae'r swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gweithio'n agos gyda'r tîm ADY, yn aml yn mynd gydag Athrawon Ymgynghorol ADY i gynnal Adolygiadau Blynyddol o Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a Datganiadau.
- 6.3. Mae Gwasanaethau Plant yn cydweithio gydag Addysg Ddewisol yn y Cartref i gefnogi Ymweliadau Cartref amrywiol â theuluoedd allai fod yn fwy anodd ymgysylltu â nhw.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

- 7.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad na chynnig ar gyfer newid ac felly nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

- 8.1. Roedd cyflwyniad i Gadeirydd y Clystyrau i egluro'r siart llif i rieni ac ysgolion yn boblogaidd a chawsant eu dosbarthu'n dda drwy'r clystyrau. Cafodd y cyflwyniad yma hefyd ei gyflwyno i Lywodraethwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.
- 8.2. Gofynnwyd am adborth am y Canllaw Statudol newydd yn ystod y cyfnod ymgynghori a chafodd ei groesawu a'i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1 Caiff costau eu talu drwy elfen Tegwch Grant Addysg yr Awdurdod Lleol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1. Mae rhai teuluoedd yn gyndyn o ymgysylltu gyda'r ALI oherwydd amgylchiadau amrywiol. Mae Sir Ddinbych yn cyd-fynd â'r duedd genedlaethol lle mae cynnydd mewn diffyg ymgysylltu. Rydym ni'n parhau i geisio ymgysylltu gyda phob teulu, y gorau allwn ni. Rydym ni'n gweithio'n agos gydag asiantaethau rydym ni'n cyfeirio teuluoedd atynt, megis Gyrfa Cymru, y Tîm Trosglwyddo, Iechyd, Cwmnïau Cefnogi Trydydd Parti, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Plant.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

- 11.1 Adran 436A Deddf Addysg 1996
- 11.2 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â datblygu polisi, materion adolygu a pherfformiad.

## **Atodiad/Appendix 1**

**CYNGOR SIR DDINBYCH GWASANAETHAU ADDYSG A  
PHLANT  
DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL EDUCATION AND  
CHILDREN'S SERVICES**

# **ADDYSG DDEWISOL GARTREF ELECTIVE HOME EDUCATION**

CANLLAW RHIANT / GWARCHEIDWAD

PARENT / GUARDIAN GUIDE

## What is Home Education?

Home education is a term used to describe when parents and carers educate their children at home instead of sending them to school. In Wales, as with the rest of the UK, education is compulsory, but school is not.

You do not need permission from the local authority to home educate (unless your child is registered at a specialist school). You do not have to follow a curriculum, although it may be a useful reference. What learning opportunities you provide and how your child learns are up to you, providing that the education you provide is 'full-time', 'suitable' and 'efficient'.

## Questions to consider before deciding to home educate

Home educating your child is a decision which should not be taken lightly. It will mean a major commitment of your time, energy and money. If you choose to home educate your children, you must be prepared to assume full financial responsibility, including bearing the costs of any public examinations. It is especially important that you consider the nature of the education you intend to provide for your child before you begin to educate them at home.

For example, you should think about the areas of learning and experience you will provide and whether they will allow your child to reach their potential, now and in the future, including whether your child wishes to sit public examinations such as GCSEs.

It is important to consider questions such as:

- Is your child positive about the suggestion of home education?
- Are you convinced it is the best option for your child?
- Do you have the time to devote to your child's education on a full-time basis?
- Do you have the ability to help your child learn effectively?
- Will you be able to educate your child to the required level if they want to take examinations?
- Are you able to provide the necessary resources?
- Do you have other support available?

- Are there opportunities for physical exercise?
- Will social experiences with other children be available?
- Are you sure home education is your choice?

## **What to do if you decide to educate your child at home**

If your child is in school, you should write to the Headteacher notifying them of your intention to take responsibility for your child's education and to remove them from the register. The headteacher will then remove your child's name from the register and notify the local authority. Verbally informing the school is not enough as you could be prosecuted for their non-attendance.

If your child has never attended school, no notification is required. However, we strongly recommend contacting your local authority to let them know you are educating your child at home so they can get in touch and offer you support.

## **What to do if your child has an Individual Development Plan (IDP) or a Statement of Special Educational Needs (SEN)**

The same procedure applies if your child has an IDP or statement of SEN and attends a mainstream school. If your child attends a specialist school, you will need to obtain permission from the local authority before removing them from the school roll and asking the local authority to amend your child's statement or review their IDP.

## **Rights and responsibilities of the parent or carer**

You have a right to educate your children from your own philosophical, spiritual or religious standpoint. However, the right to home education is not absolute. It is conditional on you providing your child with a full-time, 'efficient' and 'suitable' education.

## **What will happen if it appears you are not providing a suitable Education**

If the local authority is not reassured that you are providing a suitable education, due to, a lack of information provided by you or the information you have provided does not make it clear that the education is suitable and efficient, the local authority will continue to engage with you to provide that information.

If the local authority remains unsatisfied that the education you are providing is suitable and efficient, they will follow formal processes outlined in legislation.

If the local authority continues to have concerns, and therefore considers it necessary that the child should attend school, it must serve a school attendance order (SAO) on the parent or carer. An SAO is an order issued on behalf of the local authority requiring the child to become a registered full-time pupil at the school named on the SAO. If you wish, you can choose a different school to the one named in the SAO letter.

However, the school must be suitable to the child's needs and must have agreed to offer your child a place.

## Responsibilities of the local authority

The local authority must make arrangements to enable them to establish the identities of children in their area who are of compulsory school age but:

- are not registered pupils at a school, and
- are not receiving suitable education otherwise than at a school.

New statutory guidance has been developed to assist local authorities to carry out their duty to ensure children receive a suitable education.

## How to evidence satisfactory education provision

In evidencing the suitability of educational provision, you may, for example, provide this information in the following ways:

- A meeting with the Advisory Teacher
- Information sent by email as an attachment
- Your child showing some of their work or talking about their learning
- Photocopies of written work
- Photographs
- Artwork
- Scrapbooks
- Musical and sporting achievements (certificates)
- A diary of events
- Using digital media
- Websites contributed to or created by your family
- A written report



## Following a curriculum when home educating

There is no obligation to follow a curriculum or the same approaches as a school, but you might find this helpful as a framework when deciding what areas of learning and experience to include and how to assess your child's achievement.

The education you provide should:

- Enable your child to acquire new knowledge and make progress according to their ability to increase their understanding and develop their skills in the areas of learning and experience being delivered.
- Foster your child's intellectual, physical and creative skills and the ability to think and learn for themselves.
- Demonstrate appropriate knowledge and understanding of areas of learning and experience being delivered.
- Put in place a framework to measure your child's progress regularly and thoroughly to be able to plan your education provision suitably.

## Funding and support

Parents and carers who choose to educate their children at home must be prepared to assume full financial responsibility for their children's education, including for books and all other resources, as well as to meet the cost of any public examinations and course fees.

## Children returning to school

Your child can return to school at any time by completing a school transfer form on the Admissions section on the DCC website. However, it cannot be guaranteed that there will be a place at the school your child previously attended.

## Further Information

For more information or advice please contact Jayne Williams - EHE Advisory Teacher on [elective.home.education@denbighshire.gov.uk](mailto:elective.home.education@denbighshire.gov.uk).

## Beth yw Addysg yn y Cartref?

Mae addysg yn y cartref yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sefyllfa lle mae rhieni a gofalwyr yn addysgu eu plant yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae addysg yn orfodol, ond nid yw'n orfodol anfon plant i'r ysgol.

Nid oes angen i chi gael caniatâd gan yr awdurdod lleol i addysgu yn y cartref (oni bai bod eich plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig). Nid oes rhaid i chi gadw at gwricwlwm, er y gall fod yn adnodd hwylus i gyfeirio ato. Chi fydd yn penderfynu pa gyfleoedd dysgu y byddwch yn eu darparu a'r ffordd y bydd eich plant yn dysgu, ar yr amod bod yr addysg rydych yn ei darparu yn addysg 'amser llawn', 'addas', ac 'effeithlon'.

## Cwestiynau i'w hystyried cyn penderfynu addysgu eich plentyn yn y cartref

Nid ar chwarae bach y dylid gwneud y penderfyniad i addysgu eich plentyn yn y cartref. Bydd yn rhaid i chi wneud ymrwymiad mawr, a hynny o ran amser, egni ac arian. Os ydych yn dewis addysgu eich plant yn y cartref rhaid ichi fod yn barod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol llawn, gan gynnwys costau unrhyw arholiadau cyhoeddus. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn ystyried natur yr addysg rydych yn bwriadu ei darparu ar gyfer eich plentyn cyn i chi ddechrau ei addysgu yn y cartref.

Er enghraifft, dylech ystyried y meysydd dysgu a phrofiad y byddwch yn eu darparu, ac a fyddant yn galluogi eich plentyn i gyflawni ei botensial nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys a yw eich plentyn am sefyll arholiadau cyhoeddus fel TGAU.

Mae'n bwysig ystyried cwestiynau fel y canlynol:

- a yw eich plentyn yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch yr awgrym i'w addysgu yn y cartref?
- a ydych yn sicr mai hwn yw'r dewis gorau i'ch plentyn?
- a oes gennych yr amser i'w roi i addysg eich plentyn ar sail amser llawn?
- a oes gennych y gallu i helpu eich plentyn i ddysgu'n effeithiol?
- a fydd modd i chi addysgu eich plentyn i'r lefel ofynnol os bydd eisiau sefyll arholiadau?
- a ydych yn gallu darparu'r adnoddau angenrheidiol?

- a oes cymorth arall ar gael i chi?
- a oes cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff?
- a fydd profiadau cymdeithasol gyda phlant eraill ar gael?
- a ydych yn siŵr eich bod yn dewis addysg yn y cartref o'ch gwirfodd?

## **Beth i'w wneud os ydych wedi penderfynu addysgu eich plentyn yn y cartref**

Os yw eich plentyn yn yr ysgol, dylech ysgrifennu at y pennaeth yn rhoi gwybod iddynt am eich bwriad i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros addysg eich plentyn ac er mwyn tynnu enw eich plentyn oddi ar y gofrestr. Yna, bydd y pennaeth yn tynnu enw eich plentyn oddi ar y gofrestr ac yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol. Nid yw rhoi gwybod i'r ysgol ar lafar yn ddigon, gallech gael eich erlyn am ddiffyg presenoldeb.

Os nad yw eich plentyn wedi mynd i ysgol erioed, nid oes angen rhoi gwybod.

Fodd bynnag, argymhellwn yn gryf eich bod yn cysylltu â'ch awdurdod lleol i roi gwybod iddo eich bod yn addysgu eich plentyn yn y cartref er mwyn iddo allu cysylltu â chi a chynnig cymorth.

## **Beth i'w wneud os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol (CDU) neu ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Bydd yr un weithdrefn yn berthnasol os oes gan eich plentyn CDU neu ddatganiad o AAA ac yn mynychu ysgol prif ffrwd. Fodd bynnag, os yw eich plentyn yn mynychu ysgol arbennig, bydd angen i chi gael caniatâd gan yr awdurdod lleol cyn y gallwch ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol a gofyn i'r awdurdod lleol adolygu CDU neu ddiwygio datganiad eich plentyn.

## **Hawliau a chyfrifoldebau y rhiant neu'r gofalwr**

Mae gennych hawl i addysgu eich plant o'ch safbwynt athronyddol, ysbrydol neu grefyddol eich hunan. Fodd bynnag, ni cheir hawl absoliwt i addysgu yn y cartref. Caniateir addysgu yn y cartref ar yr amod eich bod yn darparu addysg amser llawn, 'effeithlon' ac 'addas' i'ch plentyn.

## Beth fydd yn digwydd os ymddengys nad ydych yn darparu addysg addas

Os na fydd yr awdurdod lleol yn hyderus eich bod yn darparu addysg addas oherwydd, er enghraifft, nad ydych wedi darparu gwybodaeth ddigonol neu nad yw'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu yn ei gwneud yn glir bod yr addysg yn addas ac yn effeithlon, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ymgysylltu â chi i ddarparu'r wybodaeth honno. Os bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fod heb ei fodloni bod yr addysg yr ydych yn ei darparu yn addas ac yn effeithlon, bydd yn dilyn y prosesau ffurfiol a amlinellir mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn golygu, os yw pryderon yr awdurdod lleol yn parhau, a'i fod felly o'r farn bod yn rhaid i'r plentyn fynychu'r ysgol, rhaid iddo gyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol i'r rhiant neu'r gofalwr. Mae gorchymyn mynychu'r ysgol yn orchymyn a ddyroddir ar ran yr awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn gael ei gofrestru fel disgybl amser llawn yn yr ysgol a enwir yn y gorchymyn. Os ydych yn dymuno, cewch ddewis ysgol wahanol i'r un a enwir yn llythyr y gorchymyn mynychu'r ysgol. Fodd bynnag, rhaid i'r ysgol fod yn addas i ddiwallu anghenion y plentyn a rhaid iddi fod wedi cytuno i gynnig lle i'ch plentyn.

## Cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau i alluogi iddynt nodi plant yn yr ardal sydd o fewn oedran addysg orfodol ond:

- nid ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, ac
- nid ydynt yn derbyn addysg addas heblaw am mewn ysgol.

Mae canllawiau statudol wedi'u datblygu er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod plant yn cael addysg addas.

## Sut i ddarparu tystiolaeth o ddarpariaeth addysgol foddhaol

Wrth gynnig tystiolaeth o addasrwydd darpariaeth addysg eich plentyn, gallech, er enghraifft, ddarparu'r wybodaeth hon fel a ganlyn:

- Cyfarfod gyda'r Athro / Athrawes Ymgynghorol
- Anfon gwybodaeth drwy e-bost fel atodiad
- Bod eich plentyn yn dangos rhywfaint o'i waith neu'n sôn am yr hyn mae'n ei ddysgu
- Llungopiau o waith ysgrifenedig
- Ffotograffau
- Gwaith celf
- Llyfrau lloffion
- Cyflawniadau cerddorol ac ym maes chwaraeon (tystysgrifau)
- Dyddiadur digwyddiadau
- Defnyddio'r cyfryngau digidol
- Gwefannau a grëwyd gan eich teulu neu wefannau mae eich teulu yn cyfrannu atynt
- Adroddiad ysgrifenedig

## Dilyn cwricwlwm wrth addysgu yn y cartref

Nid oes unrhyw rwymedigaeth i ddilyn cwricwlwm na'r un dulliau â'r ysgol, ond mae'n bosibl y byddai hyn yn ddefnyddiol i chi fel fframwaith er mwyn penderfynu pa feysydd dysgu a phrofiad i'w cynnwys a sut i asesu cyflawniad eich plentyn.

Dylai'r addysg a ddarperir gennych:

- alluogi eich plentyn i gaffael gwybodaeth newydd a gwneud cynnydd yn unol â'i allu er mwyn cynyddu ei ddealltwriaeth a datblygu ei sgiliau yn y meysydd dysgu a phrofiad sy'n cael eu cyflwyno.
- meithrin sgiliau deallusol, corfforol a chreadigol eich plentyn a'i allu i feddwl a dysgu dros ei hun.
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r meysydd dysgu a phrofiad sy'n cael eu cyflwyno.
- rhoi fframwaith ar waith i fesur cynnydd eich plentyn yn rheolaidd ac yn drylwyr er mwyn gallu cynllunio eich darpariaeth addysg mewn ffordd addas.

## Cyllid a chymorth

Rhaid i rieni a gofalwyr sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref fod yn barod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol llawn ar gyfer addysg eu plentyn, gan gynnwys llyfrau a phob adnodd arall, ynghyd â thalu costau unrhyw arholiadau cyhoeddus a ffioedd cyrsiau.

## Plant sy'n dychwelyd i'r ysgol

Gall eich plentyn dychwelyd i'r ysgol ar unrhyw adeg drwy gwblhau ffurflen trosglwyddo ysgol yn yr adran Derbyniadau ar wefan CSDd. Fodd bynnag, does dim sicrwydd y bydd lle yng nghyn ysgol eich plentyn.

## Rhagor o Wybodaeth

Am fwy o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch Jayne Williams â Athrawes Ymgynghorol Addysg Ddewisol yn y Cartref ar [elective.home.education@denbighshire.gov.uk](mailto:elective.home.education@denbighshire.gov.uk)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **Elective Home Education**

### **Educating your child at home**

Home Education is a term used to describe when parents and carers educate their children at home instead of sending them to school. In Wales, as with the rest of the UK, education is compulsory, but school is not. As a parent you must make sure your child receives an efficient, effective and suitable full-time education from the age of five.

### **Who do I notify?**

If you are taking your child out of school to educate them at home, you must inform the headteacher of the school in writing and ask them to remove your child's name from the register with the intention to educate them at home. The school will inform us, and your child's name will be removed from the register. If you change your mind after this, you will have to re-apply for a school place, and places at the same school may not always be available.

If your child is about to reach compulsory school age and has never been registered at a school, you are not legally required to inform the local authority that you intend to educate your child at home, however, it is strongly recommended that you do so we can get in touch to offer support.

### **What if my child has an IDP or Statement?**

The same procedure applies if your child has an IDP or Statement of SEN and attends a mainstream school. The Statement / IDP will need to be reviewed before your child comes off roll.

However, if your child attends a specialist school, you will need to obtain permission from the Local Authority before removing them from the school roll.

### **Help and support**

The Local Authority has a duty to ensure all children or young person educated at home are receiving a suitable education. We will be in touch to offer support and guidance and provide opportunities to meet with you to discuss the education your child is receiving.

### **Contact**

[Elective.home.education@denbighshire.gov.uk](mailto:Elective.home.education@denbighshire.gov.uk)

## Links

Home education: Handbook for Home Educators (Published 02/06/23)

<https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2023/6/1/1686555006/home-education-handbook-home-educators.pdf>

## Welsh Language Support

- Mudiad Meithrin - <https://meithrin.cymru/clwb-cwtsh-give-welsh-a-go/?lang=en>
- National Centre for Learning Welsh - <https://learnwelsh.cymru/learning/clwb-cwtsh>
- Urdd Gobaith Cymru - <https://www.urdd.cymru/en>

## Careers Wales

- Careers Wales can give you information, advice and guidance to help your child plan their future - <https://careerswales.gov.wales/>

## Hwb

- A digital learning platform which hosts free learning resources to support the delivery of Curriculum for Wales - [https://hwb.gov.wales/?\\_ga=2.214700819.503538688.1707300753-1841355619.1686559611](https://hwb.gov.wales/?_ga=2.214700819.503538688.1707300753-1841355619.1686559611)

## Educational trips

- During term time, Cadw offers at its staffed historic sites - <https://cadw.gov.wales/learn/education/education-visits>
- Techniquet is the UK's longest established science centre, with a mission to embed science in Welsh culture through interactive engagement. <https://www.techniquet.org/education/>

## Volunteering opportunities

- There are thousands of volunteering opportunities in Wales for your child - [https://volunteering-wales.net/?splash\\_page\\_viewed=1](https://volunteering-wales.net/?splash_page_viewed=1)

## More able and talented provision

- There are many enrichment opportunities for young, talented individuals in Wales that you can seek out alongside educating your child at home.
- Junior Conservatoire <https://www.rwcmd.ac.uk/young-rwcmd>
- Youth Opera <https://wno.org.uk/take-part/youth-opera>



- Sports Aid <https://www.sportsaid.org.uk/who-we-are/our-mission>
- National Youth Arts Wales <https://www.nyaw.org.uk/>

## **Libraries**

- Your local library has a large range of resources you can access for free - <https://libraries.wales/>

## **Youth services**

- Youth work aims to enable young people to develop holistically, facilitating their personal, social and educational development. In this way, it aims to help them to develop their voice, influence and place in society and to reach their full potential - <https://www.cwvys.org.uk/>

## **Addysg Ddewisol Gartref**

### **Addysgu eich plentyn gartref**

Addysgu gartref yw term sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pan fo rhieni a gofalwyr yn addysgu eu plant yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol. Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae addysg yn orfodol, ond nid yw'r ysgol. Fel rhiant, mae'n rhaid i chi sicrhau bod eich plentyn yn derbyn addysg effeithlon, effeithiol, llawn amser addas o 5 oed ymlaen.

### **Wrth bwy ddylwn i roi gwybod?**

Os ydych chi'n cymryd eich plentyn allan o'r ysgol i'w haddysgu gartref, mae'n rhaid i chi roi gwybod i Bennaeth yr ysgol yn ysgrifenedig, a gofyn iddynt dynnu enw eich plentyn oddi ar y gofrestr gyda'r bwriad o'u haddysgu nhw gartref. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i ni, a bydd enw eich plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr. Os byddwch chi'n newid eich meddwl, bydd rhaid i chi ymgeisio eto am le mewn ysgol, ac efallai na fydd llefydd ar gael yn yr un ysgol bob amser.

Os ydi eich plentyn bron â chyrraedd oedran ysgol gorfodol ac os nad ydynt wedi cael eu cofrestru mewn ysgol, yn gyfreithiol, nid oes yn rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod lleol eich bod yn bwriadu addysgu eich plentyn gartref, serch hynny, fe argymhellir yn gryf eich bod yn gwneud hynny er mwyn i ni gysylltu i gynnig cefnogaeth.

### **Beth os oes gan fy mhentyn CDU neu Ddatganiad?**

Mae'r un weithdrefn yn berthnasol os oes gan eich plentyn CDU neu Ddatganiad o AAA a'u bod yn mynychu ysgol prif ffrwd. Bydd angen i'r Datganiad/CDU gael ei adolygu cyn i enw'ch plentyn gael ei dynnu oddi ar y gofrestr.

Serch hynny, os ydi'ch plentyn yn mynychu ysgol arbennig, bydd yn rhaid i chi gael caniatâd gan yr Awdurdod Lleol cyn eu tynnu oddi ar y gofrestr.

### **Help a Chefnogaeth**

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref yn derbyn addysg addas. Fe fyddwn ni'n cysylltu i gynnig cefnogaeth ac arweiniad a darparu cyfleoedd i gyfarfod gyda chi i drafod yr addysg mae eich plentyn yn ei dderbyn.

### **Cysylltu**

**elective.home.education@denbighshire.gov.uk**

## **Dolenni**

**Addysg yn y cartref: llawlyfr i addysgwyr yn y cartref (Cyhoeddwyd 02/06/23)**

**<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/6/1/1686554981/addysg-yn-y-cartref-llawlyfr-i-addysgwyr-yn-y-cartref.pdf>**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                  |                                                                                                                                                                                                                                                    |
|----------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>             | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>                                                                                                                                                                                                                 |
| <b>Dyddiad y cyfarfod</b>        | <b>7 Mawrth 2024</b>                                                                                                                                                                                                                               |
| <b>Aelod Arweiniol / Swyddog</b> | <b>Y Cyng. Julie Matthews (Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol); Y Cyng. Gwyneth Ellis (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol) / Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes</b> |
| <b>Pennaeth Gwasanaeth</b>       | <b>Catrin Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl); Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth, Digidol ac Asedau); Liz Thomas (Pennaeth Cyllid ac Archwilio)</b>                                                       |
| <b>Awdur yr Adroddiad</b>        | <b>Catrin Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl)</b>                                                                                                                                                                          |
| <b>Teitl</b>                     | <b>Adroddiad Diweddaru ar adolygiad Archwilio Cymru "A yw Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol y Cyngor yn Effeithiol?"</b>                                                                                                                         |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag adroddiad Archwilio Cymru ar "A yw Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol y Cyngor yn Effeithiol?" dyddiedig Mai 2023 ac yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad. Mae copi o adroddiad Archwilio Cymru ynghlwm yn Atodiad A.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Ystyried y cynnydd a wnaed hyd yma i ymdrin â'r ddau argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu hadroddiad ym Mai 2023 ynghyd â chynlluniau'r Cyngor ar gyfer darparu digon o adnoddau ar gyfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymorth corfforaethol ehangach.

## 3. Beth yw'r Argymhelliad?

- 3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn y ddau argymhelliad.

3.2. Bod y Pwyllgor yn gwneud sylw ar gynnydd y Cyngor ar ddarparu adnoddau digonol ar gyfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymorth corfforaethol ehangach.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Bu i'r adolygiad archwilio trefniadau'r Cyngor ar gyfer ei swyddogaethau cymorth corfforaethol o fewn pedwar maes allweddol: Adnoddau Dynol (AD); Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol; Gwasanaethau Digidol; ac Archwilio Mewnol. Bu iddo edrych ar y weledigaeth a chyfeiriad strategol y swyddogaethau cymorth corfforaethol hyn i ystyried os ydynt yn cefnogi amcanion y Cyngor yn effeithiol ac yn ddigonol. Bu i'r adolygiad hefyd ystyried os yw swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn cymryd ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 4.2. Bu i'r adolygiad ganfod fod gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio, mae rhai polisiâu Adnoddau Dynol wedi dyddio ac er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol ar waith nid yw eto wedi ystyried amcanion strategol y dyfodol ac anghenion o ran adnoddau'r swyddogaethau a archwiliwyd.
- 4.3. Bu i'r adroddiad Archwilio wneud 2 argymhelliad. Mae copi o Ymateb Rheolwyr gwreiddiol y Cyngor yn Atodiad B a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 26 Gorffennaf 2023 a gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu. Ers cyhoeddi'r adroddiad mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud ar y camau gweithredu a nodwyd i ymdrin â'r argymhellion. Nodir y manylion yn y tabl isod:

| Rhif | Argymhelliad                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Cam Gweithredu                                                                                                                                                                                                                                                    | Cynnydd                |
|------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|
| R1   | Dylid adolygu polisiâu Adnoddau Dynol (AD) sydd wedi dyddio. Gwelsom nad oedd rhai polisiâu Adnoddau Dynol (AD) yn gyfredol a bod angen eu hadolygu. Os nad yw'r polisiâu'n gyfredol ac os yw dyddiadau adolygu wedi llithro, gallai roi'r Cyngor mewn perygl pe bai her gyfreithiol yn codi ynghylch AD. | Cam Gweithredu 1. Adolygu dyddiadau polisiâu i sicrhau bod yr holl bolisiâu wedi cael eu hadolygu o fewn tair blynedd. Bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Gwasanaeth, sy'n golygu y bydd yn cael ei fonitro a'i ddiweddarau bob chwarter. | Wedi Cwblhau'n Rhannol |

|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                  |           |
|----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Cam Gweithredu 2. Sicrhau ein bod yn diweddarau'r dyddiad adolygu pan gaiff polisi ei ddiwygio. Mae'r adran wedi bod yn diweddarau polisiâu yn unol â newidiadau deddfwriaethol. Yn y dyfodol bydd adolygiadau anffurfiol yn cael eu cofnodi trwy ddiweddarau'r dyddiad adolygu. | Cwblhawyd |
| R2 | Dylai adolygiadau Archwilio Mewnol ystyried yn gyson y datblygiad cynaliadwy wrth adolygu gwasanaethau. Mae angen i Archwilwyr Mewnol wirio cydymffurfiaid gwasanaethau ag egwyddorion datblygu cynaliadwy yn systematig ar gyfer pob archwiliad nad yw'n drafodion yn eu hadolygiadau. Wrth i Archwilio Mewnol ystyried yn fwy rheolaidd sut mae gwasanaethau'n mynd i'r afael â'r maes hwn, bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei sefydlu'n ddyfnach o fewn y Cyngor. | Cam Gweithredu 1. Yn ein dogfen gwmpasu byddwn yn cynnwys cwestiynau i ganfod sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â datblygu cynaliadwy ac Allyriadau Carbon. Yn dibynnu ar yr ymatebion, bydd profion yn cael eu cynnal i gadarnhau'r lefelau cydymffurfio.                     | Cwblhawyd |
|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Cam Gweithredu 2. Bydd y gwaith o fonitro gweithrediad y camau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â datblygu cynaliadwy ac allyriadau carbon yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith parhaus i fonitro effeithiolrwydd Archwilio Mewnol.                                              | Parhaus   |

4.4. O ran A1, polisi'r Cyngor yw bod polisiâu AD yn cael eu gosod i'w hadolygu bob tair blynedd. Roedd yr adroddiad archwilio'n nodi fod polisiâu'n cael eu 'hadolygu'n anffurfiol' yn ystod y tair blynedd hynny ac y bydd unrhyw faterion o ran geirfa neu ddehongliad y polisi yn cael eu trin a bydd mân newidiadau yn cael eu gwneud. Yn ystod yr archwiliad, ni chofnodwyd hyn fel adolygiad ffurfiol. Mae hyn bellach wedi ei drin a phan gynhelir adolygiad anffurfiol mae hwn nawr yn cael ei gofnodi.

4.5. Mae cyfanswm o 51 o bolisiâu a gweithdrefnau AD. Mae'r holl bolisiâu a gweithdrefnau yn gyfredol o ran newidiadau a gofynion deddfwriaethol. Mae 26 wedi eu hadolygu'n ffurfiol o fewn y 3 mlynedd ddiwethaf ac felly ystyrir bod 50% yn gyfredol ac yn briodol. Ar gyfer y 25 polisi sy'n weddill, cynhaliwyd asesiadau cychwynnol ac mae angen edrych ar 10 yn fanwl a byddant yn cymryd blaenoriaeth ac mae 15 sydd angen adolygiadau ysgafn/mân newidiadau. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer datblygu polisiâu mewn lle. Effeithir gan gynnydd oherwydd bod adnoddau'n cael eu symud i gynorthwyo gyda'r broses Gyllideb ac Arbedion effeithlonrwydd sy'n barhaus.

4.6. O ran A2, wrth ddatblygu'r cwmpas ar gyfer bob archwiliad a gynhelir. Bydd Archwilio Mewnol nawr yn cynnwys cwestiynau i ganfod sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â datblygu cynaliadwy ac Allyriadau Carbon. Isod mae tair enghraifft o sut mae Archwilio Mewnol wedi cofnodi'r egwyddorion mewn archwiliadau diweddar.

| <b>Adolygiad Archwilio</b> | <b>Cwestiynau/Meysydd i'w Profi</b>                                                                                                                                                                                                                       |
|----------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Adolygiad Trwydded Tacsi   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Beth yw'r broses ar gyfer sicrhau fod y gwasanaeth yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru 2030 o sero net?</li> <li>Beth sydd gan y gwasanaeth i gydymffurfio â thargedau datblygiad cynaliadwy'r Cyngor?</li> </ul> |
| Grant Cymorth Tai          | <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygiad cynaliadwy a llythrennedd carbon</li> </ul>                                                                                                                                                             |
| Rheoli Contract TGCh       | <ul style="list-style-type: none"> <li>Targedau datblygiad cynaliadwy a charbon sero net.</li> </ul>                                                                                                                                                      |

4.7. Yn Chwefror 2022, cyhoeddodd y Prif Weithredwr ymgynghoriad ar y strwythur uwch arweinyddiaeth. Cododd bryderon fel rhan o'r ymgynghoriad fod swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn rhy wasgaredig. Roedd y dull rheoli matrices wedi tyfu trwy newid cynyddrannol ac yn golygu fod y swyddogaethau cymorth corfforaethol yn dameidiog.

4.8. Gweithredwyd strwythur newydd ar 1 Ebrill 2023 sy'n cynnwys Cyfarwyddiaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol dan arweiniad Cyfarwyddwr Corfforaethol. Gelwir y Gyfarwyddiaeth hon yn Llywodraethu a Busnes ac mae'n cynnwys dau wasanaeth - Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Pobl a Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys yr holl swyddogaethau cymorth corfforaethol ac eithrio Cyllid sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr.

4.9. Mae'r Gyfarwyddiaeth newydd yn golygu bod mwy o allu o fewn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gynllunio newidiadau trawsnewidiol yn effeithiol o fewn y Cyngor a darparu dull cydlynol o gefnogi Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

4.10. Ar lefel Cyfarwyddiaeth mae'r Cyfarwyddwr a'r ddau Bennaeth Gwasanaeth newydd yn cydweithio i ystyried amcanion strategol y dyfodol ac anghenion y swyddogaethau o ran adnoddau, gan drafod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Archwilio ar gynlluniau.



4.11. Ar lefel gwasanaeth, mae'r tri Phennaeth Gwasanaeth newydd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu eu strwythur gan ystyried sut i gyflawni'r dyheadau ar gyfer y Cyngor a'r Sir fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol, gweledigaeth y Prif Weithredwr ar gyfer y sefydliad a gofynion cyllidebol.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**

5.1. Mae cael polisïau a gweithdrefnau cyfredol yn cyfrannu at thema'r Cynllun Corfforaethol: Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad. Mae polisïau a gweithdrefnau yn cyfrannu tuag at sicrhau fod Cyngor Sir Ddinbych yn gyflogwr da ac yn le ardderchog i weithio.

5.2. Bydd y camau gweithredu a gymerwyd ar gyfer A2 yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y Cyngor yn dod yn Ddi-garbon Net ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 o dan y thema Cynllun Corfforaethol: Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cost yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les gan nad yw'r adroddiad hwn angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1. Ystyriwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 26 Gorffennaf 2023 a gan GCIGC. Fel rhan o gynnal yr archwiliad, byddai amrywiol swyddogion y Cyngor wedi cyfrannu at yr archwiliad a chytuno ar yr adroddiad terfynol, argymhellion a chamau gweithredu.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1. Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes risgiau yn gysylltiedig â'r argymhellion ym mhwynt 3 uchod.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

# A yw Swyddogaethau Cymorth Corfforaethol y Cyngor yn Effeithiol? – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3461A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio, mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio, ac er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym.

Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio ac mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio 6

Er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym 8

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Fe wnaeth yr adolygiad archwilio trefniadau Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ar gyfer ei swyddogaethau cymorth corfforaethol mewn pedwar maes allweddol: Adnoddau Dynol; Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol; Gwasanaethau Digidol; ac Archwilio Mewnol.
- 2 Fe wnaethom fwrw golwg ar weledigaeth a chyfeiriad strategol y swyddogaethau cymorth corfforaethol hyn i ystyried a ydynt yn cefnogi amcanion y Cyngor yn effeithiol ac yn ddigonol.
- 3 Fe wnaeth yr adolygiad ystyried hefyd a yw swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Yr hyn y gwnaethom chwilio amdano

- 4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn effeithiol?
- 5 I ateb y cwestiwn yma, fe wnaethom ystyried:
  - a oedd trefniadau presennol ar gyfer swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr am anghenion, heriau a chyfleoedd gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol gan gynnwys ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
  - a yw'r Cyngor wedi ystyried a chynllunio mewn modd priodol sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer ei swyddogaethau cymorth corfforaethol dros y tymor byr, canolig a hir; ac
  - a oes gan y Cyngor drefniadau priodol i fonitro ac adolygu amcanion tymor byr, canolig a hwy ei swyddogaethau cymorth corfforaethol.

## Yr hyn a ganfuom

- 6 Canfuom fel a ganlyn: mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio, mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio, ac er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym. Daethom i'r casgliad yma am y rhesymau canlynol:
  - mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio ac mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio; ac

- er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried amcanion ac anghenion strategol am adnoddau yn y dyfodol o ran y swyddogaethau a archwiliwyd gennym.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

#### Argymhellion

- A1 Dylai'r polisïau Adnoddau Dynol sydd wedi dyddio gael eu hadolygu.
- Canfuom fod rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio a bod angen eu hadolygu. Gall hyn achosi risg i'r Cyngor, pe bai her gyfreithiol yn codi mewn perthynas ag Adnoddau Dynol, os nad yw polisïau'n gyfoes a bod dyddiadau adolygu wedi llithro.
- A2 Dylai adolygiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol fynd ati'n gyson i ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adolygu gwasanaethau. Mae angen i gydymffurfiaeth meysydd gwasanaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy gael ei gwirio'n systematig gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ei adolygiadau ar gyfer pob archwiliad nad yw'n drafodiad. Trwy sicrhau bod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yn fwy rheolaidd sut y mae gwasanaethau'n mynd i'r afael â'r maes yma, bydd yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei wreiddio'n ddyfnach yn y Cyngor.

# Adroddiad manwl

## Mae gan swyddogaethau cymorth corfforaethol y Cyngor ddealltwriaeth dda am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystyried yr egwyddor yn gyson yn ei holl waith archwilio ac mae rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio

7 Wrth ddod i'r casgliad yma canfuom fel a ganlyn:

- roedd gan yr holl staff mewn gwasanaethau cymorth corfforaethol y siaradom ni gyda hwy ddealltwriaeth dda am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae staff y gwasanaethau cymorth corfforaethol yn defnyddio proses y Cyngor ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Lesiant wrth ystyried newid neu gyflwyno polisïau a phrosiectau.
- canfuom fod rhai polisïau Adnoddau Dynol wedi dyddio a bod angen eu hadolygu. Gall hyn achosi risg i'r Cyngor, pe bai her gyfreithiol yn codi mewn perthynas ag Adnoddau Dynol, os nad yw polisïau'n gyfoes a bod dyddiadau adolygu wedi llithro. Polisi'r Cyngor yw y bydd polisïau AD yn cael eu hadolygu am dair blynedd, ond os bydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth yn digwydd yn ystod yr amser hwnnw, yna dylid diweddarau'r polisi ar unwaith. Mae'r polisïau'n cael eu 'hadolygu'n anffurfiol' yn ystod y tair blynedd hynny a bydd unrhyw faterion gyda geiriad neu ddehongliad o'r polisi yn cael sylw a gellir gwneud mân newidiadau ac fe gaiff eu gwneud. Nid oedd y polisïau Adnoddau Dynol a archwiliwyd gennym yn 2022 yn cofnodi i'r 'adolygiadau anffurfiol' hyn ddigwydd, ac nid oeddent o fewn y cylch tair blynedd ychwaith. Roedd y polisïau, felly, yn hen, ac mae'r risg o her gyfreithiol i bolisïau Adnoddau Dynol yn parhau.
- roedd y polisïau Adnoddau Dynol a archwiliwyd gennym ni'n ymdrin â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- roedd swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n disgwyl y byddai'r galw am adolygiadau Archwilio Mewnol yn cynyddu yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i'r Cyngor gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ac wrth i'r gwasanaeth aildrefnu adolygiadau a ohiriwyd yn ystod y pandemig. Mae recriwtio i swyddi Archwilio Mewnol yn dal i fod yn her er bod y mater yn gyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus Gogledd Cymru.
- yn dilyn y pandemig, mae rhai o wasanaethau'r Cyngor yn dal i geisio rhoi argymhellion hirsefydlog ar waith o adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol ac mae rhai camau gweithredu sydd heb gael eu rhoi ar waith yn fwy na theirblwydd oed gyda hynny yn ei dro'n sbarduno gwaith dilynol pellach gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae'r Uwch Dîm Arwain, y Cabinet a'r Prif



Weithredwr yn cael gwybod am risgiau a godwyd i lefel baner goch gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, ond nid ydynt yn cael nac yn adolygu argymhellion gofynnol yn systematig, oni bai eu bod yn cael eu codi i lefel baner goch. Hefyd, efallai na fydd storïau da ac arfer gorau'n cyrraedd y lefel arweinyddiaeth a llywodraethu hon, gyda chyfleoedd yn cael eu colli o ganlyniad.

- canfuom, er y gallai'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ddangos dealltwriaeth dda am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy, nad yw'r adroddiadau Archwilio Mewnol a archwiliwyd gennym ni wastad yn rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn eu proses i archwilio gwasanaethau. Nid yw cydymffurfiaeth meysydd gwasanaeth â'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei gwirio'n systematig gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mhob un o'i adolygiadau nad ydynt yn drafodiad.
- y Gwasanaethau Cymunedol a Chwsmeriaid sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o ymholiadau oddi wrth y cyhoedd a gyflwynir i'r Cyngor a lle na allant ddatrys yr ymholiad maent yn eu cyfeirio at y gwasanaeth priodol. Yn ystod y pandemig, roedd galw mawr am y gwasanaeth ac mae'r pwysau hynny wedi parhau yn ystod 2022. Nid yw'r Cyngor wedi adolygu eto pa un a fydd lefel yr ymholiadau'n gostwng yn 2023 ac, os na fyddant, sut y bydd yn gwneud y gwasanaeth yn gydnerth yn wyneb y pwysau newydd hyn.
- roedd galw mawr am y Gwasanaethau Digidol hefyd ac mae'r pwysau hyn wedi parhau yn ystod 2022. Roedd swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n uchel eu canmoliaeth i'r gwaith gan y Gwasanaethau Digidol yn ystod ac ar ôl y pandemig. Roedd gan rai swyddogion y siaradom ni gyda hwy ddealltwriaeth glir am yr egwyddor datblygu cynaliadwy ond roeddent yn teimlo nad oedd y cysylltiadau rhwng gwaith y Gwasanaethau Digidol a chyfeiriad strategol corfforaethol y Cyngor wastad yn cael eu dangos yn glir, ac roedd rhai swyddogion yn teimlo y gallai eu gwasanaeth digidol gael ei gryfhau pe bai'r cysylltiadau â'r Cynllun Corfforaethol newydd yn fwy eglur, megis ymagwedd y Cyngor at gamau gweithredu a fydd yn rhoi hwb i wreiddio diwylliant digidol gyda staff a dinasyddion. Er bod y Camau Gweithredu yn Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn ategu themâu corfforaethol y Cyngor, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu'r dirwedd ddigidol gyfredol yn llawn. Er enghraifft, nid yw'r trefniadau cyfredol yn rhoi adlewyrchiad llawn o'r gweithgarwch digidol cydweithredol sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

## Er bod gan y Cyngor drefniadau monitro priodol nid yw wedi mynd ati eto i ystyried anghenion y swyddogaethau cymorth corfforaethol am adnoddau yn y dyfodol

8 Wrth ddod i'r casgliad yma canfuom fel a ganlyn:

- mae gan bob gwasanaeth corfforaethol a archwiliwyd gennym gynllun gwasanaeth sydd o gymorth i gyflawni'r blaenoriaethau yn hen gynllun corfforaethol y Cyngor. Roedd y cynlluniau gwasanaeth a archwiliwyd gennym ni'n gynhwysfawr ac yn eglur ac yn nodi trosolwg o'r gwasanaeth a'r deilliannau y mae'r gwasanaeth yn amcanu at eu cyflawni. Mae'r cynlluniau'n cynnwys y dangosyddion perfformiad, mesurau a gweithgareddau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu cynnydd o ran cyflawni'r amcanion. Rhoddir sgôr coch, ambr neu wyrdd (CAG) i bob deiliant, sy'n dynodi lefel y gwelliant y mae ei angen, ac fe gaiff y rhain eu diweddarau pan adroddir ar y cynlluniau gwasanaeth ym mhob chwarter. Caiff adroddiadau ar gynlluniau gwasanaeth eu hystyried fel rhan o broses herio gwasanaethau'r Cyngor, er nad yw hon wedi cael ei chynnal yn y ffordd arferol yn ystod y pandemig ond bydd yn aildechrau yn 2023 ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol newydd.
- mae perfformiad yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth yn cael ei adolygu'n chwarterol gan yr Uwch Dîm Arwain, gan y Cabinet a chan y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad. Mae'r adroddiadau ar gael yn gyhoeddus fel rhan o bapurau agenda'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae'r adroddiadau'n darparu diweddariad naratif ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ac yn adrodd ar berfformiad mewn perthynas â mesurau penodol. Fe welsom ni graffu cadarn ar adroddiadau'r gwasanaethau corfforaethol gan Aelodau mewn cyfarfodydd craffu a chan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- nid yw cynlluniau ar gyfer y dyfodol sy'n adlewyrchu'r Cynllun Corfforaethol newydd yn eu lle eto ar gyfer gwasanaethau cymorth corfforaethol y Cyngor, sy'n dal i adfer o COVID i ryw raddau a hwythau angen ychydig o seibiant. Mae anghenion adnoddau beunyddiol yr holl wasanaethau, gan gynnwys swyddogaethau cymorth corfforaethol, yn cael eu harchwilio a'u hystyried fel rhan o'r prosesau ar gyfer pennu'r gyllideb flynyddol. Yn benodol, yn y blynyddoedd diwethaf mae adolygiad blynyddol o bwysau nad ydynt yn strategol wedi galluogi'r holl wasanaethau i gyflwyno ceisiadau am adnoddau ychwanegol. Fe wnaeth penodi Prif Weithredwr newydd yn ystod y pandemig arwain at broses i adolygu ac ailstrwythuro uwch dîm arwain a Phenaethiaid Gwasanaeth y Cyngor na fydd yn cael ei chwblhau tan haf 2023. Fodd bynnag, dylai fod ffocws strategol yn awr ar swyddogaeth a

chynllunio gydag ystyriaeth i gyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy gan y Cyngor.

- byddai asesiad strategol o anghenion gwasanaethau cymorth corfforaethol y Cyngor am adnoddau, ar ôl y pandemig, yn goleuo dealltwriaeth y Cyngor am y gofynion o ran darparu adnoddau a gofynion sy'n dod i'r amlwg o ran hyfforddi a datblygu'r gweithlu ac yn cryfhau trefniadau i fynd i'r afael â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.



## Atodiad/Appendix B

### Organisational response

**This document is set to read only – use File>Save as / save a copy**

Report title: Are the Council's Corporate Support Functions Effective? – Denbighshire County Council

Completion date: 16<sup>th</sup> of June 2023

Document reference: 3461A2023

Tyddalen 53

| Ref | Recommendation                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | <b>Organisational response</b><br>Please set out here relevant commentary on the planned actions in response to the recommendations                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | <b>Completion date</b><br>Please set out by when the planned actions will be complete | <b>Responsible officer (title)</b>                         |
|-----|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|
| R1  | Human Resource (HR) policies that are out of date should be reviewed. We found that some Human Resource (HR) policies are out of date and need to be reviewed. This can put the Council at risk, should a legal challenge arise around HR, if policies are not up to date and review dates have slipped.                                                                                                                                                   | <p>Action 1. Review policy dates to ensure that all policies have been reviewed within three years. This activity will be incorporated into the Service Plan, which will mean that it will be monitored and updated quarterly.</p> <p>Action 2. Ensure we update the review date when a policy is amended. The department have been updating policies in-line with legislative changes. In future, informal reviews will be recorded by way of updating the review date.</p>  | 31 <sup>st</sup> of December 2023                                                     | Louise Dougal<br>(Interim Head of Service Human Resources) |
| R2  | Internal Audit reviews should consistently consider the sustainable development when reviewing services. Service area compliance with sustainable development principles need to be systematically checked for all non-transactional audits by Internal Audit in their reviews. By Internal Audit more regularly considering how services are addressing this area, the sustainable development principle will be more deeply embedded within the Council. | <p>Action 1. Within our scoping document we will include questions to ascertain how services are complying with sustainable development and Carbon Emissions. Depending on the responses testing will be undertaken to confirm level of compliance.</p> <p>Action 2. Monitoring of the implementation of agreed actions in relation to sustainable development and carbon emission will be included as part of the ongoing monitoring of effectiveness of Internal Audit.</p> | 31 <sup>st</sup> of July 2023                                                         | Steve Gadd<br>(Head of Finance and Audit Service)          |

|                            |                                                                                  |
|----------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad i'r</b>       | <b>Pwyllgor Craffu Perfformiad</b>                                               |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod</b>  | <b>7 Mawrth 2024</b>                                                             |
| <b>Pennaeth Gwasanaeth</b> | <b>Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth</b><br><b>Corfforaethol: Pobl</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad</b>  | <b>Rhian Evans, Cyd-lynydd Craffu</b>                                            |
| <b>Teitl</b>               | <b>Rhaglen Waith Craffu</b>                                                      |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

